**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 13 Rhagfyr 2022**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Y Cynghorydd Barry Mellor. |
| **2** | DATGANIADAU O FUDDIANT | Y Cynghorydd Julie Matthews– Cysylltiad Personol – Eitem Rhif 5 ar y Rhaglen |
| **3** | MATERION BRYS | Ni godwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2022 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.* |
| **5** | GOSOD RHENT TAI A CHYLLIDEBAU REFENIW TAI A CHYFALAF 2023/24 | ***PENDERFYNWYD*** *bod –*<br><br>*(a) Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2023/24 (Atodiad 1 i'r adroddiad) a Chynllun Busnes y Stoc Dai (Atodiad 2 i'r adroddiad) yn cael ei fabwysiadu;*<br><br>*(b) rhent anheddau'r Cyngor yn cael eu cynyddu'n unol â Pholisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhent Tai Cymdeithasol o 5% i'w weithredu o ddydd Llun 3 Ebrill 2023;*<br><br>*(c) nodi'r adroddiad ychwanegol (Atodiad 3 i'r adroddiad) am Effeithiolrwydd Cost, Fforddiadwyedd a Gwerth am Arian, a*<br><br>*(d) Y Cabinet yn cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiadau o Effaith ar Les (Atodiad 4 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.* |
| **6** | Y BROSES GYFALAF A DYFODOL Y GRŴP BUDDSODDI STRATEGOL | ***PENDERFYNWYD****bod y Cabinet yn -*<br><br>*(a) cymeradwyo'r broses cyfalaf newydd, a*<br><br>*(b) Bod y Cabinet yn cefnogi Cylch Gorchwyl drafft y Grŵp Craffu Cyfalaf a fydd yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo yng nghyfarfod cyntaf o'r Grŵp.* |

**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 13 Rhagfyr 2022**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| **7** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD****bod y Cabinet yn -*<br><br>*(a) nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2022/23 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb; ac*<br><br>*(b) cymeradwyo'r cynlluniau i wario grant cyfalaf (£1.203 miliwn) ar uwchraddio ceginau a chyfleusterau cinio Ysgolion er mwyn darparu ar gyfer y cynllun Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd, y manylir arno yn adran 6.9 ac Atodiad 5 i'r adroddiad.* |
| **8** | BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet.* |
| **9** | ARGYMELL Y GRŴP GOSOD FFI RANBARTHOL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn derbyn yr holl argymhellion o'r Grŵp Ffioedd fel y nodir o fewn yr adroddiad.* |